S4C /

# Rheolwr Cyflawni Technoleg

## Pam ymuno ag S4C?

Yn S4C, rydym yn angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu Pawb, Cer Amdani.

Mae S4C yn chwilio am Rheolwr Cyflawni Technoleg i gyflawni prosiectau mawr, effaith uchel sy'n llunio dyfodol darlledu yng Nghymru. Mae hon yn swydd gyffrous i feddwlwr strategol sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac sydd â brwdfrydedd dros gyflawni newid sy’n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i’r diwydiant darlledu.

## Trosolwg o'r Swydd

Mae S4C yn defnyddio meddalwedd rheoli gorsafoedd o'r enw BSM. Mae'r feddalwedd hon wedi'i hysgrifennu yn Delphi ac mae wedi'i haddasu'n helaeth er mwyn ei theilwra ar gyfer gofynion penodol S4C. Yn ogystal â'r feddalwedd graidd, mae dau gynnyrch pellach wedi'u datblygu gan S4C:

Cwmwl: A ddefnyddir i gyflwyno syniadau rhaglenni i S4C a dilyn cyflwyniad llwyddiannus i'r cam contract.

PAC (*Programme as Completed*): Defnyddir hwn i gasglu data gan gwmnïau cynhyrchu ar gyfer gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhaglen, er enghraifft, casglu data am y gerddoriaeth a ddefnyddir i’w adrodd i PRS.

Mae S4C wedi penderfynu bod angen mwy o feddalwedd berchnogol i ddarparu'r swyddogaethau hyn er mwyn gwneud cefnogaeth yn fwy cadarn a pheidio â bod mor ddibynnol ar system bwrpasol.

Mae'r Rheolwr Cyflawni Technoleg yn atebol am gyflwyno’r datrysiad BSM seiliedig ar gynnyrch o’i ddechrau i'w ddiwedd, gan drosi anghenion busnes a gweithredu yn ganlyniadau technegol clir, cyraeddadwy. Maent yn arwain y gwaith o ddylunio, adeiladu ac integreiddio'r cynnyrch craidd o ochr S4C, a'i systemau cysylltiedig, gan gydlynu timau mewnol a chyflenwyr trydydd parti i sicrhau bod data’n llifo’n ddi-dor, systemau wedi eu hintegreiddio’n gadarn, a pherfformiad dibynadwy. Mae'r swydd yn gyfrifol am gwmpas, cynlluniau, risgiau a dibyniaethau technegol ac yn sicrhau bod safonau saernïol, diogelwch a gweithredol yn cael eu bodloni. O’r dylunio/gofynion cychwynnol, trwy’r gwaith profi hyd at fynd yn fyw a throsglwyddo, mae'r Rheolwr Cyflawni Technoleg yn sicrhau bod y datrysiad yn cael ei gyflwyno ar amser, yn addas i'r diben, yn wydn, ac yn barod yn dechnegol ar gyfer mynd yn fyw.

## Prif Ddyletswyddau

- Yn gyfrifol am gyflwyno datrysiad rheoli systemau busnes seiliedig ar gynnyrch o'i ddechrau i'w ddiwedd, o’r dylunio i weithrediad byw.
- Diffinio cwmpas, canlyniadau, cerrig milltir a meini prawf llwyddiant mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid busnes a thechnegol.
- Trosi gofynion busnes a gweithredol yn gynlluniau technegol clir y gellir eu cyflawni.

- Arwain y gwaith o ddylunio a chyfleu prosesau integreiddio i'r cynnyrch BSM ac oddi wrtho (e.e., Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau, llif data, llifoedd gwaith a ysgogir gan ddigwyddiadau, a systemau cyfagos).
- Rheoli cyflenwyr trydydd parti ac integreiddwyr systemau, gan osod disgwyliadau, amserlenni a safonau ansawdd.
- Cydlynu timau mewnol (peirianneg, gweithrediadau, diogelwch, saernïaeth) er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu gwaith mewn ffordd sy’n cydredeg.
- Sefydlu a chynnal cynlluniau cyflawni, dibyniaethau, a rhagolygon adnoddau.
- Nodi, olrhain a lliniaru risgiau o ran cyflawni’r gwaith, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar wasanaethau byw neu sy’n hanfodol i’r dasg.
- Cadeirio’r Bwrdd Cyflawniad Technegol ac adolygiadau o gyflenwyr gan roi adroddiadau statws clir.
- Sicrhau y bydd pob cydran ac integreiddiad yn cyrraedd safonau saernïol a diogelwch drwyddynt draw.
- Goruchwylio gweithgareddau adeiladu, ffurfweddu ac integreiddio ar draws pob parti.
- Cynllunio a rheoli’r gwaith o brofi integreiddiad systemau, profi sut mae’n cael ei dderbyn gan ddefnyddwyr, ac a yw’n barod ar gyfer ei weithredu, gan weithio'n agos gyda'r Dadansoddwr Busnes Technegol.
- Sicrhau bod gofynion cywirdeb, perfformiad a gwydnwch data a’r gallu i’w ehangu yn unol â’r anghenion yn cael eu bodloni, gan weithio'n agos gyda'r Arweinydd Mudo Data.
- Rheoli’r gwaith o reoli newid a datblygu cwmpas wrth ddiogelu amserlenni a chanlyniadau cyflawni.
- Bod yn sbardun ar gyfer y gwaith cynllunio ar gyfer mynd yn fyw, y pontio a’r gefnogaeth uwchofal gyda thîm y rhaglen.
- Sicrhau bod dogfennaeth lawn a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo, yn ogystal â throsglwyddo’r awenau i weithrediadau.
- Ymgorffori modelau cefnogi, Cytundebau Lefel Gwasanaeth, a monitro er mwyn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor i’r gwasanaeth.

## Manyleb Person

| Nodweddion | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad helaeth yn y cyfryngau a darlledu, gydag o leiaf 10 mlynedd mewn swydd debyg a phrofiad blaenorol o blatfformau rheoli systemau darlledu (BSM) ar raddfa fawr neu blatfformau cyfryngau menter.<br><br>Profiad amlwg o reoli gwerthwyr trydydd parti a chyfunwyr systemau.<br><br>Profiad o gyflwyno integreiddiadau system cymhleth a datrysiadau sy'n cael eu hysgogi gan Ryngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau. | |
| **Sgiliau a gwybodaeth** | Dealltwriaeth gref o systemau darlledu a llifoedd gwaith (e.e., chwarae allan, amserlenni, Rheoli Asedau Cyfryngau | Sgiliau Cymraeg, (Mae cymorth ar gael i ddatblygu sgiliau Cymraeg). |

| | | |
|---|---|---|
| | (MAM), awtomatiaeth, cymryd i mewn, Rheoli Ansawdd (QC), monitro).<br><br>Sgiliau rheoli cyflawniad cryf (Agile, Waterfall, neu hybrid).<br><br>Y gallu i bontio cynulleidfaoedd technegol a rhai nad ydynt yn dechnegol.<br><br>Gwybodaeth am saernïaeth ddarlledu seiliedig ar y cwmwl ac amgylcheddau hybrid.<br><br>Yn gyfarwydd â throsglwyddo gweithredol yn arddull Llyfrgell Isadeiledd Technoleg Gwybodaeth (ITIL) a thrawsnewid gwasanaeth. | |
| **Priodweddau Personol** | Sylw manwl i fanylion ac ymagwedd strwythuredig, drefnus at gyflawni gwaith.<br><br>Sgiliau trefnu a rheoli amser cryf, gyda'r gallu i reoli ffrydiau gwaith lluosog.<br><br>Meddylfryd cydweithredol gyda'r hyder i herio rhagdybiaethau ac ysgogi arfer gorau. | |

## Manylion eraill

**Lleoliad:** Swyddfa S4C, Sgwâr Canolog, Caerdydd (Mae S4C yn gweithredu polisi gwaith hybrid.).

**Cyflog:** £70,000 y flwyddyn

**Cytundeb:** 12 mis i ddechrau

**Oriau gwaith:** 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

**Cyfnod prawf:** 6 mis

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau.

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o’r

| | |
|---|---|
| | Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Teithio:** | Mae'r rôl yn gofyn i chi fod yn bresennol yn Yr Egin, Caerfyrddin yn rheolaidd, yn ogystal â theithio'n achlysurol o fewn Cymru. |

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **9.00 ar ddydd Llun 2 Mawrth 2026** at Pobl@s4c.cymru neu Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.